# DYLAN PEARCE

## CLWB PÊL-DROED TREF ABERDÂR

Mae Dylan, sy'n 18 oed, yn gwirfoddoli gyda Chlwb Pêl-droed Aberdâr. Dylan yw hyfforddwr cynorthwyol tîm merched dan 14 oed a thîm bechgyn dan 15 oed. Mae'n cynnal sesiynau hyfforddi bob nos Iau ac yn mynd i gemau'r merched bob prynhawn Sul.

Mae Dylan hefyd wedi bod yn allweddol wrth helpu'r clwb i sefydlu sesiynau 'Little Kickers' ar gyfer plant 12 mis i 4 oed. Mae'n cynnal sesiynau 'Little Kickers' bob bore Sadwrn a bob bore Sul. Dros y Nadolig, roedd Dylan wedi gwirfoddoli i gynnal parti Nadolig 'Little Kickers'. Roedd e hefyd wedi darparu 49 basged i deuluoedd mewn angen ledled Cwm Cynon. Mae Dylan yn hyfforddwr gwych ac mae'n wirfoddolwr gwerthfawr iawn yn y clwb.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## EBRILL 2024